Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Llwybr Piliwn Pwn (Tŷ Nant), Cader Idris

ANODD/LLAFURUS

Trosolwg o'r Daith

Pellter: 10km (6.2 milltir)

Hyd: 5 awr

Math o daith: Yno ac yn ôl

⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20231127/2038

1



Trowch i'r chwith wrth i chi adael y maes parcio. Parhewch ar hyd y ffordd am oddeutu 100m nes i chi gyrraedd mynedfa ffermdy Tŷ Nant. Trowch i'r chwith gerllaw'r arwyddbost am Dŷ Nant.

2

Dilynwch y trac i fyny i Dŷ Nant ac ewch trwy giât mochyn wrth y ffermdy. Cyn bo hir, byddwch yn croesi pont goncrid dros afon ac yn mynd trwy goedlan.

3

Parhewch ar hyd y llwybr creigiog wrth iddo ddringo'n araf a dilynwch yr arwyddbost i'r dde. Ewch drwy giât mochyn a chroeswch y nant yn ymyl y bont garreg. Bydd y llwybr yn dechrau dringo'n serth i fyny llethr gwelltog.

4

Dilynwch y llwybr i fyny'r llechwedd serth. Ymhen amser, byddwch yn mynd trwy giât haearn – caewch y giât ar eich ôl. Cerddwch ymlaen ar hyd ffridd welltog. Bydd y ffridd yn dod yn fwy gwastad wrth i chi ei chroesi.

5



Cyn bo hir, fe ddowch at giât haearn arall yn y wal. Ewch drwy'r giât gan gofio ei chau ar eich ôl. Croeswch y nant a pharhewch ar hyd y llwybr.

6



Ewch heibio'r hen gorlannau defaid carreg ar eich dde ac ewch ymlaen i fyny'r llethr igam-ogam serth. Byddwch yn pasio clogfaen enfawr wrth i chi ddringo. Mae'r graddiant yn lleihau'n raddol wrth i chi nesáu at y grib ar Riw Gwredydd.

7

Ar ôl dringfa serth, bydd y llwybr yn lefelu nes ei fod yn cyrraedd croestoriad o ffensys gyda giatiau. Ewch drwy'r giât bren, throwch i'r chwith a pharhewch tuag at y copa. Yma fe welwch Cwm Llan. Dyma lle mae Llwybr Llanfihangel y Pennant yn ymuno â'r llwybr i gopa Cader Idris.

8



Mae'r rhan olaf o'r daith yn mynd trwy dir serth a mynyddig iawn. Argymhellir gwisgo esgidiau addas gan fod y ddaear yn greigiog ac yn aml yn rhydd dan draed. Mae'r llwybr yn dilyn cyfres o rannau igam-ogam, yn serth a gwastad bob yn ail. Parhewch nes cyrraedd pen yr esgyniad lle cewch fwynhau golygfa o Ben y Gader.

9



Ar ddiwedd yr adran hon fe ddowch at ddiwedd Bwlch Cyfrwy. Dilynwch y llwybr i'r dde gan fynd heibio i adfeilion cysgodfan gerrig gron ar eich dde. Byddwch yn ofalus dros y creigiau, yn enwedig pan fydd hi'n wyntog.

Cyn bo hir, fe ddowch at greigiau rhyfeddol a'i adnabyddir fel creigiau 'lafa clustog'. Byddai'r creigiau hyn wedi bod ar wely'r môr cyntefig filiynau o flynyddoedd yn ôl. Parhewch ar hyd y llwybr i'r chwith o'r creigiau. Yn fuan, fe ddowch at sgrambl creigiog byr sy'n arwain i fyny tuag at y copa.

Wrth agosáu at y copa, byddwch yn mynd heibio i weddillion hen le tân ar eich dde. Parhewch i ddringo tuag at y copa sydd bellach ond ychydig bellter i ffwrdd. Saif lloches, sy'n cael ei chynnal gan Wasanaeth Wardeniaid Parc Cenedlaethol Eryri, ger carnedd y copa.

Wrth i chi ddychwelyd, bydd y llwybr yn mynd heibio i weddillion yr hen le tân eto. Parhewch i gerdded i lawr y sgrambl creigiog ac anelwch yn ôl tuag at y creigiau 'lafa clustog'. Sicrhewch eich bod yn cadw'r clogwyni mawr ar eich ochr dde bob amser.